Disgrifiad Swydd

CYFEIRNOD Y SWYDD

Teitl y Swydd	Ymchwilydd Ariannol Achrededig				
Gradd	9	**Cyfeirnod Gwerthuso Swydd:**	3112b	**Dyddiad Gwerthuso/Adolygu**	18/12/2025

Gwasanaeth	Yr Amgylchedd a Diogelu'r Cyhoedd				
Tîm Gwasanaeth	Safonau Masnach				
Yn atebol i	Prif Swyddog Safonau Masnach				
Meysydd Cyfrifoldeb	Safonau Masnach ac Ymchwiliad Ariannol				
Nifer y staff mae'n gyfrifol amdanynt	Dim	**Rôl Wleidyddol Gyfyngedig** *(gweler yr adran amodau arbennig)*	Na	**Angen Gwiriad gan y GDG**	Oes
Ffurflen Gwerthuso Swydd (i'w chwblhau gan reolwr dim ond wrth greu swydd newydd neu addasu rôl bresennol)					

DIBEN Y SWYDD

Cynnal ymchwiliadau ariannol i droseddwyr sy'n defnyddio pwerau i olrhain ac adennill enillion troseddau; a chynnal gweithgareddau gorfodi sy'n ymwneud ag ymchwiliadau troseddol cymhleth â lefel uchel o niwed a gwendidau.

PRIF FEYSYDD CANLYNIAD

1. Gweithredu fel ymchwilydd ariannol achrededig gan ddefnyddio pwerau i olrhain ac adennill enillion troseddau. Rhewi, cadw a fforffedu arian parod ac eiddo troseddol arall fel y bo'n briodol. Cynnal ymchwiliadau atafaelu yn unol â Deddf Enillion Troseddau 2002 (fel y'i diwygiwyd) gan ddefnyddio Gorchmynion Ataliad.
2. Cynnal ymchwiliadau, lle bo'n briodol, naill ai ar sail unigol neu fel aelod o'r tîm, i doriadau a nodwyd neu doriadau posibl o'r holl safonau masnach a deddfwriaeth arall a phan fo angen paratoi adroddiadau ar gyfer ystyried achosion cyfreithiol ar dorri safonau masnach a mynd i'r Llys a rhoi tystiolaeth yn ôl y gofyn.
3. Arfer pwerau gorfodi mewn perthynas â deddfwriaeth gwasanaethau rheoliadol a deddfwriaeth droseddol arall fel Deddf Enillion Troseddau 2002, Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000, Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 a Deddf Gweithdrefn ac Ymchwiliadau Troseddol 1996.
4. Ymchwilio i gwynion yn ôl cyfarwyddyd er mwyn canfod unrhyw doriadau o amddiffyn defnyddwyr ac arferion masnachu annheg.
5. Cyfweld â phobl dan amheuaeth (gan gynnwys cyfweld mewn gorsafoedd heddlu cyn cyhuddo) gan ddefnyddio'r technegau arfer gorau diweddaraf i'r safonau uchaf.
6. Sicrhau bod yr holl waith achos a deallusrwydd yn cael eu cofnodi a'u dosbarthu'n gywir yn unol â'r Model Deallusrwydd Genedlaethol.
7. Cynnal rhaglen o weithgareddau a strategaethau cynhwysfawr ac ataliol sy'n cwmpasu'r holl ddeddfwriaeth gwasanaethau rheoliadol perthnasol.
8. Monitro tueddiadau newydd ac nas rheoleiddir mewn gweithgareddau masnachu nad yw deddfwriaeth bresennol yn berthnasol iddynt o bosibl a nodi meysydd o dwyll busnes a throsedd ac ymchwilio i faterion o'r fath ac adrodd arnynt.
9. Cydgysylltu'n gyson ac yn rheolaidd ag Asiantaethau Gorfodi eraill, Adrannau'r Llywodraeth a Chyrff Proffesiynol a mynychu cyfarfodydd fel cynrychiolydd y Tîm ac arweinwyr timau'r Gwasanaethau Rheoliadol gyda phartneriaid

perthnasol; bydd y partneriaid hyn yn cynnwys Timau Safonau Masnach Rhanbarthol; yr Heddlu; Rhwydwaith Deallusrwydd Asiantaethau'r Llywodraeth; Llu Ffiniau'r DU, Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi ac eraill.

10. Gwneud cofnodion priodol am waith a wneir ac, yn gyffredinol, cyflawni swyddogaethau gweinyddol priodol ac ymateb i'r holl faterion gan gynnwys gohebiaeth yn unol â pholisïau'r Cyngor. Bydd hyn yn cynnwys defnyddio technoleg gwybodaeth.

11. Cymryd gofal rhesymol am eich diogelwch eich hun a diogelwch pobl eraill; cydweithredu â rheolwyr/goruchwylwyr wrth gydymffurfio â dyletswyddau iechyd a diogelwch statudol; rhoi gwybod am ddigwyddiadau, damweiniau, diffygion ac ati.

Mae'r disgrifiad swydd hwn yn nodi prif feysydd canlyniad y swydd ar y dyddiad y cafodd ei lunio. Gall y fath ddyletswyddau amrywio o bryd i'w gilydd heb newid cymeriad cyffredinol y swydd na lefel y cyfrifoldeb. Mae'r fath amrywiadau'n digwydd yn gyffredin ac ni allant ynddynt eu hunain gyfiawnhau ailystyried gradd y swydd.

MANYLEB PERSON		
	HANFODOL	**DYMUNOL**
Cymwysterau	• Meddu ar gymhwyster lefel gradd ynghyd â'r Dystysgrif Ymchwilio Ariannol a'r Dystysgrif Atafaelu (neu weithio tuag ati) Cynnal statws ymchwilydd ariannol achrededig trwy gwblhau'r rhaglen orfodol datblygiad proffesiynol parhaus (Neu brofiad cyfredol a sylweddol o gyflawni dyletswyddau llawn Ymchwilydd Ariannol Achrededig).	• Cymhwyster Safonau Masnach Perthnasol. • Cymwysterau Adfer Sifil POCA
Gwybodaeth	• Rhaid dangos gwybodaeth dda o'r gyfraith a gweithdrefnau cyfreithiol, yn enwedig mewn cysylltiad ag ymchwiliad ariannol. • Gwybodaeth am drefn Awdurdod Lleol.	• Trwydded yrru lawn gyfredol y DU.
Profiad	• Meddu ar brofiad blaenorol sy'n cynnwys casglu gwybodaeth, ymchwilio a dadansoddi. • Profiad sylweddol o gynnal ymchwiliadau troseddol. • Dangos profiad sylweddol o orfodi deddfwriaeth sy'n ymdrin ag ymddygiad twyllodrus ac anonest. • Profiad o ddelio â'r cyhoedd/masnachwyr.	• Profiad ym maes safonau masnach/gorfodi twyll.
Galluoedd a Sgiliau	• Meddu ar sgiliau dadansoddi da a galluoedd i gymhwyso'r rhain i nifer fawr o ddogfennaeth er mwyn nodi materion craidd ar gyfer ymchwilio. • Sgiliau cyfathrebu da, ar lafar ac yn ysgrifenedig; meddu ar sgiliau rhyngbersonol da. • Barod i helpu, yn deg ac yn gweithredu â meddwl agored. • Gallu gweithio o'ch pen a'ch pastwn eich hun heb lawer o oruchwyliaeth. • Y gallu i gynllunio a rheoli ymchwiliadau a phrosiectau.	• Y gallu i siarad/darllen Cymraeg a/neu ieithoedd cymunedol lleol eraill.

	• Sgiliau bysellfwrdd effeithiol a gallu defnyddio systemau gwybodaeth gyfrifiadurol. • Ymrwymiad i ofal cwsmeriaid. • Sgiliau rheoli amser da.	

YMDDYGIAD A GWERTHOEDD DISGWYLIEDIG

Annog a chynorthwyo pobl eraill fel rhan o dîm. Rhoi arweiniad a chyngor i bobl eraill. Meithrin perthnasoedd gwaith cadarnhaol.

Ceisio, annog a chydnabod syniadau, mentrau a gwelliannau i ddarparu gwasanaethau gwell. Annog a chynorthwyo pobl eraill i feddwl yn wahanol, i gwestiynu ac i roi cynnig ar ffyrdd newydd o wneud pethau.

Ystyried dulliau a sianeli cyfathrebu, mewn ffordd uniongyrchol. Ymdrin yn hyderus â sgyrsiau heriol. Annog diwylliant o adborth.

Ystyried goblygiadau a gwneud penderfyniadau / argymhellion ar sail tystiolaeth ac ymgynghori.

Myfyrio'n onest ar eich dull gweithio personol a'i effaith ar bobl eraill, a datblygu eich sgiliau er mwyn gallu addasu eich dulliau fel y bo'n briodol.

Cyfle Cyfartal

Cyfle Cyfartal	Deall a dangos parodrwydd i hyrwyddo Cynllun Cydraddoldeb Strategol Cyngor Dinas Casnewydd yn gadarnhaol.

Gofynion y Gymraeg

Mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaeth o safon yr un mor uchel yn Gymraeg ac yn Saesneg a bydd yn cynorthwyo staff i ddarparu hyn. Rhaid i bob swydd gael ei hasesu o ran gofynion y Gymraeg a bydd pob un naill ai'n nodi bod y Gymraeg yn Hanfodol neu fod y Gymraeg yn Ddymunol.

Gofynion y Gymraeg ar gyfer y swydd hon (gweler yr Asesiad Sgiliau Iaith Gymraeg am lefelau sgiliau)

Sgiliau'r Gymraeg		Dymunol			
Sgiliau Gwrando / Siarad	3	Sgiliau Ysgrifennu	3	Sgiliau Darllen / Deall	3

Amodau Arbennig

Datgeliadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd	Fel rhan o'r swydd hon byddwch yn cael cryn dipyn o gyswllt â phlant, yr henoed, pobl sâl neu bobl anabl. Mae'r Awdurdod, felly, yn gofyn eich bod, yn rhinwedd Gorchymyn Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 (Eithriadau) 1975, Deddf Plant 1989 a/neu Ddeddf yr Heddlu 1997, yn datgelu unrhyw euogfarnau troseddol, gorchmynion rhwymo neu rybuddion, gan gynnwys y rheini a ystyrir fel rhai a ddisbyddwyd. Rhaid i chi gwblhau'r adran berthnasol ar y ffurflen gais – caiff eich cais ei ddychwelyd os yw'r adran hon yn anghyflawn. Os ydych yn llwyddiannus yn eich cais, byddwch yn destun Datgeliad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Dylech dderbyn rhagor o wybodaeth am Ddatgeliadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ac agwedd y Cyngor at recriwtio cyn-droseddwyr ar ôl derbyn y ffurflen gais. Os na dderbyniwch chi'r rhain, cysylltwch â'r person a enwir yn yr hysbyseb.
Rôl Wleidyddol Gyfyngedig	Ddim yn berthnasol.
Arall (gan gynnwys gofynion	Yn gallu cynnal ymweliadau safle o fewn ffiniau'r Ddinas.

Amodau Arbennig	
corfforol ac amodau gwaith)	

Hyfforddiant
Ymgymryd â'r holl hyfforddiant gorfodol sy'n berthnasol i'r rôl a bod yn gyfrifol am eich Datblygiad Proffesiynol Parhaus eich hun.

I gael rhagor o wybodaeth am weithio i Gyngor Dinas Casnewydd, ewch i www.casnewydd.gov.uk neu cliciwch yma